

PRESENNOL:

Cynghorwyr: Peter Garlick, Math Williams, Gwyneth Thomas, Erddyn Davies, Huw Orwig

Cadeirio: Geraint Strello

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

1. YMDDIHEURIADAU

Dafydd Iwan, Emyr Williams, Mirain Llwyd Owen, Wynn Roberts

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION MIS GORFFENAF 2019

Penderfynwyd gohirio cadarnhau cofnodion mis Gorffennaf 2019 tan gyfarfod Hydref 2019, gan mai ond un aelod yng nghyfarfod Medi oedd yn bresennol yng nghyfarfod mis Gorffennaf, ac mae angen dau aelod i gynnig ag eilio cymeradwyaeth i'r cofnodion.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Clwb Ieuenctid Gwynedd

Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i Gyngor Gwynedd pryd y bydd y Clwb Ieuenctid yn cyfarfod ym Montnewydd dros y misoedd nesaf.

Gellir wedyn arsylwi'r gweithgareddau a phenderfynu at ba wariant y medr y cyngor cymuned gyfrannu atynt yn y dyfodol.

4.2 Lliniaru Llifogydd Dalgylch Bontnewydd

Bydd gwaith ar y wal yn cychwyn rywbryd ym mis Medi. Gobeithir gorffen y gwaith cyn yr hydref.

Cytunwyd y dylid gwahodd y swyddogion priodol i gyfarfod o'r cyngor cymuned ym mis Tachwedd, er mwyn dangos sut mae'r systemau atal llifogydd yn gweithio, a'r gwahanol sefyllfaoedd a modelu.

4.3 Cyfethol Aelod

Croesawyd Huw Orwig i'w gyfarfod cyntaf.

Mae un sedd yn parhau yn wag, er gwaethaf hysbysebu unwaith eto ar hysbysfyrddau'r gymuned.

4.4 Rheoliadau Gwrychoedd 1997

Cafodd y Clerc ymholiad gan aelod o'r cyhoedd yn ystod yr haf, oedd yn pryderu am y gwrychoedd oedd wedi eu tynnu wrth adeiladu'r ffordd osgoi, ar y ffin rhwng cyngor cymuned y Bontnewydd a Chyngor Cymuned Waunfawr.

Mae Rheoliadau Gwrychoedd 1997/1160 yn darparu fod yn rhaid i awdurdod cynllunio perthnasol ymgynghori efo'r cynghorau cymuned perthnasol cyn eu tynnu.

Roedd yr aelod o'r cyhoedd yn gofyn a fu yna ymgynghoriad rhwng yr awdurdod cynllunio perthnasol a'r cynghorau cymuned.

Ysgrifennodd y Clerc at Gyngor Gwynedd gan na fu unrhyw ymgynghori parthed y gwrychoedd, ond eu hymateb hwy oedd mai Llywodraeth Cymru oedd yr awdurdod cynllunio perthnasol.

Disgwylir ymateb gan Lywodraeth Cymru.

4.5 Goryrru yn Llanfaglan

Penderfynwyd gofyn i'r fan Siwrne Saff ymweld â Llanfaglan yn amlach.

Gofynnwyd i'r Clerc ofyn am ddiweddariad gan Gyngor Gwynedd o ran daparu sribedi coch i arafu traffig, ar y ffordd I mewn ac allan o Lanfaglan, ac i ail baentio arwydd "Araf" ar y ffordd, sydd wedi gwisgo.

Mynegwyd pryder am y rhai hynny sy'n cerdded o Fron Goch tuag at Lôn Eifion. Mae'n rhaid cerdded tua 100m ar hyd Lôn Pant i wneud hyn.

Ystyriwyd hefyd y byddai arwydd ychwanegol yn Fron Goch yn atgoffa modurwyr i gymryd gofal tra'n tynnu allan i Lôn Pant yn fuddiol.

Gan fod Fron Goch yn ward Seiont, gofynnwyd i'r Clerc ysgrifiennu at y Cyngorydd Cai Larsen parthed y materion uchod.

4.6 Gwaith Bwrdd Dŵr Ysgol Bontnewydd

Mae Dŵr Cymru wedi cwblhau'r gwaith o drwsio'r caeadau haearn y tu allan i fynedfa Ysgol Bontnewydd

4.7 Y Ganolfan

Cafwyd crynodeb o sefyllfa ariannol a defnydd Y Ganolfan.

Mae'r sefyllfa ariannol llawer yn iachach nag y mae wedi bod, yn bennaf oherwydd incwm ychwanegol gan fod yr adeilad yn cael ei logi'n amlach.

Y nosweithiau sy'n wag yw nosweithiau Mercher, Iau a Sul.

Gwaith cynnal a chadw a gwelliannau a wnaethpwyd yn ystod yr haf ac sydd ar y gweill.

1. Profion larwm tân (pob 6 mis)
2. Ail-osod rhai landeri/gwteri oedd yn gollwng dŵr glaw ac ail-osod rhai llechi ar y to
3. Gwydr newydd i ffenest sy'n edrych tros iard Meithrin ar archeb
4. Atgyweirio'r to fflat sy'n gollwng i storfa'r gofalwr; amhosib gosod pris cyn medru gweld a ydy distiau'r to wedi pydru.
5. Drws tân y neuadd yn gollwng dŵr ac angen ei drwsio oherwydd y sêl rwber wedi pydru
6. Drysau tân y cyntedd angen eu hail osod er mwyn cau'r bwch ac atal y gwynt sy'n chwythu drwyddynt - chwilio am seiri coed i ymgymeryd â'r gwaith; ac mae angen enwau.
7. Arolwg egni i'r hen ystafell snwcer
8. Newidiwyd goleuadau fflworoleuol ystafell neithrin am unedau LED newydd; a newidiwyd gweddill tiwbiau fflworoleuol y neuadd (12) am rai LED yn unol ag argymhellion yr arolwg egni. Mae'r tiwbiau newydd yn 24W yn lle 70W; felly bydd y biliau trydan yn gostwng, efallai cymaint â £17/mis.
9. Adnewyddu'r ystafell snwcer - mae pensaer wedi dechrau paratoi manylion gwaith ar gyfer y gwaith adnewyddu. Bydd y manylion gwaith yn sail i gael gofyn dyfynbrisau gan adeiladwyr; ac wedyn i

geisio grant am y gwaith.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Gorffennaf ac Awst 2019

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £279.00 x 2 = £558.00

Cyfanswm Net £232.20 x 2 = £464.40

5.2 Anfoneb Wyn Williams rhif 1910 glanhau cysgodfannau £192.00

5.3 Anfoneb Swyddfa Archwilio Cymru, Archwilio Allanol 2018/19
£307.50

6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Cais cynllunio C19/075/19/LL – dymchwel modurdy presennol a chodi modurdy ac estyniad ochr newydd ynghyd â chreu mynedfa gerbydol a manparcio newydd, Y Bryn, Bontnewydd. Dim sylwadau.

7. GOHEBIAETH

- Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Mantell Gwynedd
- Llythyr diolch Cylch Meithrin Bontnewydd

Derbyniwyd er gwybodaeth

8. MATERION ERAILL

8.1 Hen safle ailgylchu Bontnewydd

Eglurodd y Cynghorydd Peter Garlick fod cwmni Hogan's i darmacio'r darn yma erbyn diwedd mis Medi.

8.2 Cyfraniad y Ffordd Osgoi

Bu'r Cynghorydd Peter Garlick mewn cysylltiad â chwmni Jones Bros. Maent yn ystyried rhoi cyfraniadau ariannol i gymdeithasau a mudiadau lleol, ond does ganddynt ddim pwll di-waelod o arian.

Mae'r Cynghorydd Peter Garlick wedi pwysleisio y dylai fod ystyriaeth i gyfraniad i gymuned Bontnewydd, oherwydd fod nifer o ffyrdd lleol yn cael eu cau i hwyluso'r gwaith o adeiladu'r ffordd, a hyn yn achosi anghyfleustra i drigolion lleol.

Cytunwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at Jones Bros, yn gofyn iddynt gysylltu â'r Cymnghorydd Peter Garlick ar gyfer trafodaethau pellach.

8.3 Cae Gwynedd

Mae cyflwr adeilad Cae Gwynedd, a brynwyd gan Lywodraeth Cymru oherwydd dyfodiad y ffordd osgoi yn brysur ddirwyio. Roedd bwriad i'w ddefnyddio fel swyddfeydd, ond nid yw ei ddefnydd bellach yn eglur.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn nodi pryfer am gyflwr yr eiddo, ac yn gofyn am eu bwriadau parthed yr eiddo yn y dyfodol.

8.4 Gwefan

Cafwyd trafodaeth fer ar sefydlu gwefan ar gyfer y cyngor cymuned. Cytunwyd fod yn rhaid i'r wefan gynnwys y manylion angenrheidiol, ond ei chadw'n weddol syml.

Bydd y Clerc yn mynychu cwrs Un Llais Cymru ddechrau Hydref ar sefydlu gwefannau ac ymgysylltu cymdeithasol.

8.5 Cysgodfannau Bws Bontnewydd

Nododd y Cynghorydd Peter Garlick fod rhai o gysgodfannau bysiau Bontnewydd i gael eu hadneywyddu gyda rhai Traws Cymru yn fuan.

Gofynnwyd i'r Clec ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i gadarnhau'r sefyllfa.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 3 Hydref 2019 am 7 yr hwyr yn Y Ganolfan, Bontnewydd

